OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 1765

# Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2012

**Diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(**1**) yn unol â pharagraffau (2) i (6).

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) yn lle'r cyfeiriadau at offerynnau UE sy'n ymddangos yn union ar ôl y diffiniad o "mangre" rhodder y cyfeiriadau canlynol—

"mae i "Penderfyniad 2006/766" ("*Decision 2006/766*"), "Penderfyniad 2011/131" ("*Decision 2011/131*"), "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*"), "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*"), "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*"), "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*"), "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation 854/2004*"), "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation 882/2004*"), "Rheoliad 1688/2005" ("*Regulation 1688/2005*"), "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*"), "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*"), "Rheoliad 2075/2005" ("*Regulation 2075/2005*"), "Rheoliad 1020/2008" ("*Regulation 1020/2008*"), "Rheoliad 1021/2008" ("*Regulation 1021/2008*"), "Rheoliad 219/2009" ("*Regulation 219/2009*"), "Rheoliad 596/2009" ("*Regulation 596/2009*"), "Rheoliad 669/2009" ("*Regulation 669/2009*"), "Rheoliad 1162/2009" ("*Regulation 1162/2009*"), "Rheoliad 739/2011" ("*Regulation 739/2011*"), "Rheoliad 809/2011" ("*Regulation 809/2011*"), "Rheoliad 880/2011" ("*Regulation 880/2011*"), "Rheoliad 1086/2011" ("*Regulation 1086/2011*"), "Rheoliad 1109/2011" ("*Regulation 1109/2011*"), "Rheoliad 1169/2011" ("*Regulation 1169/2011*"), "Rheoliad 1223/2011" ("*Regulation 1223/2011*"), "Rheoliad 1277/2011" ("*Regulation 1277/2011*"), "Rheoliad 16/2012" ("*Regulation 16/2012*") a "Rheoliad 28/2012" ("*Regulation 28/2012*") yr ystyr a roddir iddynt, yn eu trefn, yn Atodlen 1;".

(3) Yn union ar ôl paragraff (5) o reoliad 2, mewnosoder y paragraff canlynol—

"(6) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at offeryn UE a ddiffinnir yn Atodlen 1 yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y diwygir unrhyw atodiad iddo o bryd i'w gilydd."

(4) Yn union ar ôl rheoliad 32 (cyfyngiadau ar werthu llaeth crai a fwriedir ar gyfer ei yfed yn uniongyrchol gan bobl a diwygiadau i Reoliadau Labelu Bwyd 1996) mewnosoder y rheoliad canlynol—

"**Marc iechyd arbennig**

**32A.** Rhaid i'r marc iechyd arbennig y cyfeirir ato ym mharagraff 9 o Bennod VI o Adran I o Atodiad III i Reoliad 853/2004 a pharagraff 7 o Bennod III o Adran I o Atodiad I i Reoliad 854/2004 gydymffurfio ag Atodlen 6A."

(5) Yn lle Atodlen 1 (diffiniadau o ddeddfwriaeth UE) rhodder yr Atodlen a osodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(6) Yn union ar ôl Atodlen 6 (cyfyngiadau ar werthu llaeth crai a fwriedir ar gyfer ei yfed yn uniongyrchol gan bobl) mewnosoder yr Atodlen a osodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 2006/31 (Cy.5), a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/1534 (Cy.151), O.S. 2007/373 (Cy.33), O.S. 2010/893 (Cy.92) ac O.S. 2012/975 (Cy.129).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*